# Hysbysiad o Dendr

# Llyfrgell Ddelweddau Dyma Beth yw Heneiddio / This is Older

## ADRAN I: SEFYDLIAD CONTRACTIO

**I.1)** ENW, CYFEIRIADAU A PHWYNT(IAU) CYSWLLT:


Cyswllt: Victoria Lloyd, Prif Weithredwr

Cyfeiriad: Age Cymru, Mariners House, Trident Court, East Moors Road, Caerdydd, CF24 5TD

Rhif ffôn: 029 2043 1555 E-bost: victoria.lloyd@agecymru.org.uk

Gwefan: www.agecymru.org.uk / www.gwanwyn.org.uk


**I.2)** MATH O SEFYDLIAD A PHRIF WEITHGAREDD NEU WEITHGAREDDAU:

Elusen gofrestredig a chwmni cyfyngedig trwy warant

Rhif elusen: 1128436

**Cefndir Age Cymru**

Age Cymru yw'r elusen genedlaethol ar gyfer pobl hŷn yng Nghymru a'r grym sy'n cyfuno Age Concern Cymru a Help the Aged yng Nghymru. Mae'r elusen yn gweithio'n genedlaethol ac yn lleol i wella bywyd pob person hŷn.

Mae rhaglen artistig Age Cymru yn rhan o'r adran Heneiddio'n Iach ac fe'i cyflwynir yn bennaf trwy ŵyl gelfyddydau flynyddol genedlaethol, sef Gwanwyn, sy'n dathlu creadigrwydd pobl hŷn. Mae'r prosiect Dyma Beth yw Heneiddio / This is Older, a ariennir gan Gyngor Celfyddydau Cymru, yn archwilio'r ffordd y mae pobl hŷn yn cael eu cynrychioli yn y cyfryngau.

**Cefndir Dyma Beth yw Heneiddio / This is Older**

Nod y prosiect yw cydgynhyrchu, trwy ymgysylltu, agenda ysgrifenedig y gall sefydliadau ei llofnodi, i sicrhau bod pobl hŷn sy'n byw yng Nghymru yn cael eu cynrychioli'n iawn. Byddwn

hefyd yn cynhyrchu llyfrgell o luniau stoc sy’n cynrychioli amrywiaeth pobl hŷn yng Nghymru ac yn hyrwyddo cynrychiolaeth gywir o’u bywydau a’u profiadau.

Bydd Cam Un y prosiect, sy’n canolbwyntio ar ymgysylltu â phobl hŷn a rhanddeiliaid, wedi cael ei gwblhau ac wedi arwain at agenda ysgrifenedig, sy’n rhoi arweiniad i’r cyfryngau a sefydliadau eraill ar sut mae pobl hŷn yng Nghymru eisiau cael eu cynrychioli.

Mae cam nesaf y prosiect (creu’r llyfrgell ddelweddau) yn cael ei gynnig ar gyfer tendr.

Bydd y prosiect, o fis Mawrth 2021 ymlaen, yn cael ei oruchwylio gan Victoria Lloyd, Prif Weithredwr Age Cymru.

Cytunwyd ar y canlyniadau canlynol gyda Chyngor Celfyddydau Cymru:
- Agenda ysgrifenedig a gwaith celf cysylltiedig
- Llyfrgell o ddelweddau stoc sy’n cynrychioli profiadau bywyd amrywiol pobl hŷn yng Nghymru yn gywir
- Ffilm ddogfen fer sy’n cyfleu’r broses o greu’r llyfrgell ddelweddau
- Digwyddiad lansio sy’n cynnwys arddangosfa o’r delweddau

## ADRAN II: DIBEN Y CONTRACT

**II.1)** DISGRIFIAD

**II.1.1)** Teitl:

Llyfrgell Ddelweddau Dyma Beth yw Heneiddio / This is Older

**II.1.2)** Math o gontract:

Contract cyfnod penodol, yn dechrau ym mis Mai 2021 ac i’w gwblhau erbyn canol mis Medi 2021

**II.1.3)** Disgrifiad byr o’r contract neu’r pryniad(au):

Anogwn yn frwd geisiadau gan unigolion 50+ oed neu sy’n perthyn i sefydliadau a arweinir gan bobl hŷn.

Rydym eisiau comisiynu cynhyrchydd neu artist i gynhyrchu casgliad o ffotograffau digidol, eglur iawn, sy’n dathlu amrywiaeth pobl hŷn yng Nghymru (50+) a fydd yn cael eu defnyddio fel llyfrgell o ddelweddau stoc. Mae gofynion ychwanegol y tendr yn cynnwys creu ffilm ddogfen fer y tu ôl i’r llenni (10 munud ar y mwyaf) sy’n cyfleu’r broses o greu’r delweddau, a pharatoi detholiad o’r delweddau ar gyfer digwyddiad lansio/arddangosfa, a gyflwynir mewn partneriaeth ag Age Cymru.

Yn rhan o’r gwaith hwn, byddem yn disgwyl i’r cynhyrchwr sicrhau/rheoli’r canlynol:

- Castio’r modelau’n deg, gan hysbysebu’n eang i sicrhau cyfle cyfartal fel bod y delweddau canlyniadol yn cynrychioli amrywiaeth pobl dros 50 oed yng Nghymru
- Talu ffi deg i’r modelau am eu hamser
- Delweddau sy’n adlewyrchu cymysgedd o senarios, gan gynnwys dan do ac yn yr awyr agored a phontio’r cenedlaethau, pobl hŷn yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau
- Dilyn canllawiau cyfredol Llywodraeth Cymru ar gadw pellter cymdeithasol, a chynnal asesiadau risg perthnasol
- Sicrhau cydsyniad ysgrifenedig yr holl fodelau a sicrhau bod Age Cymru yn cael copïau – cyflenwir ffurflen dempled
- Sicrhau bod y ffilm ddogfen yn cael ei chymeradwyo gan Reolwr Brand a Chyfathrebu Digidol Age Cymru
- Cyflwyno digwyddiad lansio ac arddangosfa o ddetholiad o’r delweddau a rhannu’r ffilm ddogfen, mewn partneriaeth ag Age Cymru

**II.1.5)** Amserlen

| | |
|---|---|
| Cyhoeddi’r tendr | Mawrth 2021 |
| Terfyn amser ar gyfer derbyn cynigion | 9 Ebrill 2021 |
| Hysbysu am ddyfarnu’r contract | Ebrill 2021 |
| Dechrau’r prosiect | Ebrill 2021 |
| Cyflwyno’r delweddau, y ffilm a’r digwyddiad lansio | Medi 2021 |

## ADRAN III: GWYBODAETH GYFREITHIOL, ECONOMAIDD, ARIANNOL A THECHNEGOL

**III.1)** AMODAU CYMRYD RHAN

**III.1.1)** Tystiolaeth o Brofiad:

Bydd angen i ymgeiswyr sy’n dymuno cynnig ar gyfer y contract hwn fanylu ar y ffactorau sy’n golygu eu bod nhw’n addas i gyflawni’r darn hwn o waith, h.y. profiad artistig, gwybodaeth, profiad, gwybodaeth gefndir, gallu technegol.

**III.1.2)** Cynllun Prosiect:

Mae’n rhaid i ymgeiswyr gynnwys cynllun prosiect manwl sy’n amlinellu sut y byddant yn ymgymryd â’r gwaith.

**III.1.3)** Cyllideb:

Y gyllideb ar gyfer y tendr yw: £13,550

Mae'n rhaid i ymgeiswyr roi dadansoddiad manwl o sut y bydd yr arian yn cael ei wario ar y prosiect hwn.

## ADRAN IV: GWEITHDREFN

**IV.1)** MATH O WEITHDREFN

**IV.1.1)** Math o weithdrefn:

Cyfyngedig (h.y. darn o waith untro yw hwn).

**IV.2)** MEINI PRAWF DYFARNU

**IV.2.1)** Meini prawf dyfarnu:

- Dangos dealltwriaeth o gwmpas y gwaith sydd i'w gwblhau
- Ymagwedd artistig, ansawdd, natur gynhwysfawr ac addasrwydd y cynllun prosiect arfaethedig
- Gallu y gellir ei ddangos i gynnal y prosiect yn effeithiol, gan gynnwys gwybodaeth, profiad ac arbenigedd yn ymwneud â'r celfyddydau a phobl hŷn
- Gwerth am arian

**IV.3)** GWYBODAETH WEINYDDOL

**IV.3.1)** Terfyn amser ar gyfer derbyn ceisiadau i gymryd rhan:

Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau – **5pm 9 Ebrill 2021**

Ni fydd ceisiadau hwyr neu anghyflawn yn cael eu hystyried

**IV.3.2)** Dylid anfon tendrau trwy e-bost at Victoria.lloyd@agecymru.org.uk

**IV.3.2)** Dyddiad hysbysu'r ymgeisydd/ymgeiswyr llwyddiannus: 16 Ebrill 2021

## ADRAN V: GWYBODAETH GYFLENWOL

**V.1)** ASESU

**V.1.1)** Bydd ceisiadau'n cael eu hasesu gan Age Cymru. Os bydd llawer o ymatebion i'r tendr hwn, efallai y bydd rhestr fer yn cael ei llunio. Gallai ymgeiswyr sydd ar y rhestr fer gael eu gwahodd i roi cyflwyniad ynglŷn â'u cynigion.

**V.2)** ATEBOLRWYDD

**V.2.1)** Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn atebol i Victoria Lloyd, Prif Weithredwr Age Cymru

---

Mae Age Cymru yn elusen gofrestredig: 1128436. Mae'n gwmni cyfyngedig trwy warant ac wedi'i gofrestru yng Nghymru a Lloegr 6837284. Cyfeiriad ein swyddfa gofrestredig Llawr Isaf, Tŷ Mariners, Llys Trident, Heol East Moors, Caerdydd CF24 5TD. © Age Cymru 2021